Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Cofrestru'n brynwr pysgod a physgod cregyn





Gwybodaeth ar gyfer busnesau bwyd yng Nghymru sy'n prynu'n uniongyrchol oddi wrth bysgotwyr



# Prynu'n lleol

Mae arfordir Cymru'n fwy na 1,000 o filltiroedd o hyd ac mae dros 60% o bobl y wlad yn byw wrth ei ymyl. Mae ein pysgodfeydd yn darparu bwyd a swyddi gwerthfawr i gymunedau arfordirol gwledig. Mae twristiaeth arfordirol yn bwysig i Gymru ac mae'n tyfu. Mae ymwelwyr â'n harfordir yn disgwyl cael cynnig pysgod (a physgod cregyn) o'n moroedd. Mae Llywodraeth Cymru'n gorfod rheoli'n pysgodfeydd i sicrhau bod stociau'n gynaliadwy dros y tymor hir er mwyn cynnal y diwydiant er lles cenedlaethau heddiw ac yforys[1]. Rhaid cael eich help chi i wneud hyn. Mae angen gwybodaeth o'r

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



ansawdd gorau arnom i wneud yn siŵr nad yw'n pysgodfeydd yn cael eu gorbysgota. Rhaid gwneud yn siŵr hefyd bod y rheolau ar feintiau lleiaf pysgod, sy'n cael eu pennu er mwyn i bysgod allu bridio, yn cael eu parchu.

Mae prynu pysgod oddi wrth bysgotwyr lleol yn ffordd wych o gael pysgod ffres tymhorol, a helpu i sicrhau bod y diwydiant pysgota yng Nghymru yn un cynaliadwy. Wrth i ddiddordeb pobl yn nharddiad eu bwyd dyfu, mae'n ffordd i brofi o ble mae'r bwyd rydych yn ei werthu yn dod a helpu'r diwydiant i ychwanegu at werth ei gynnyrch.



# Pam mae angen i chi gofrestru'n brynwr pysgod

Efallai nad oeddech chi'n gwybod hyn, ond os ydych chi'n prynu pysgod neu bysgod cregyn yn uniongyrchol oddi wrth bysgotwr, rhaid ichi gofrestru'ch busnes fel **'prynwr pysgod gwerthiant cyntaf'** dan *Reoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006* (y Rheoliadau).

Ystyr **'pysgod gwerthiant cyntaf'** yw pysgod sy'n cael eu marchnata am y tro cyntaf.

Amcan y Rheoliadau yw darparu gwybodaeth ynghylch faint o bysgod sy'n cael eu gwerthu a'u prynu a rhoi hyder i siopau a bwytai ynghylch o ble mae'r pysgod yn dod. Mae pysgotwyr masnachol wedi gwario llawer o arian i gadw at eu hymrwymiadau statudol ac mae'r rheoliadau hyn yn cydnabod y buddsoddiad hwnnw i gael yr hawl i lanio pysgod a physgod cregyn yng Nghymru.

Lle nad oes trefniadau rheoli o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin Ewrop ar gyfer math penodol o bysgodyn (e.e. draenog y môr) ond y gallai fod yn y dyfodol, bydd y gyfran y bydd Cymru'n cael eu dal yn debygol o fod yn seiliedig ar y ffigurau a gesglir o dan y cynllun hwn. Mae'n bwysig felly bod y cofnodion hyn yn gywir.



# Prynu oddi wrth bysgotwyr

O dan y Rheoliadau, mae'n drosedd prynu pysgod neu bysgod cregyn sydd wedi'u glanio gan gwch rydych yn gwybod sydd heb drwydded, pan nad chi'ch hunan sydd am fwyta'r pysgod hynny. Mae cosb fawr am wneud[2]) Os nad ydych yn siŵr a yw'r cwch wedi'i gofrestru, gofynnwch i'r perchennog am brawf ysgrifenedig neu holwch eich swyddfa pysgodfeydd leol cyn prynu. Ceir cofrestr o gychod ar **www.fishregister.gov.uk**





[2] Hyd at £50,000 fesul trosedd

# Cwestiynau cyffredin

**C: Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth rwyf yn ei rhoi ichi o dan y Rheoliadau hyn?**

A: Byddwn yn cyfuno'ch gwybodaeth chi â gwybodaeth arall i dracio stoc benodol o bysgod mewn blwyddyn benodol. Byddwn wedyn yn ystyried faint o bysgod y gellir eu dal heb i'r stoc ddirywio. Byddwn yn croes-gyfeirio'r wybodaeth am laniadau i wneud yn siŵr ei bod yn gywir.

**C: Â phwy caiff yr wybodaeth ei rhannu?**

A: Byddwn yn rhoi'ch manylion cofrestru ar gronfa ddata gyhoeddus ond bydd eich manylion prynu yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol.

**C: Rwy'n rheoli neu'n berchen ar fwyty neu gaffi ac yn prynu pysgod yn rheolaidd oddi wrth gyfanwerthwr, ond yn prynu ambell bysgodyn oddi wrth bysgotwr lleol, a oes angen ifi gofrestru?**

A: Oes. Os ydych chi'n prynu unrhyw bysgod 'gwerthiant cyntaf' at y dibenion hyn, mae'n rhaid i chi gofrestru'n brynwr.

**C: Oes yn rhaid cadw at y rheolau hyn gyda physgod o fferm bysgod?**

A: Nac oes.

**C: Os rhaid cadw at y rheolau hyn gyda samwn neu sewin gwyllt?**

A: Nac oes. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fesurau gwahanol ar gyfer y pysgod hyn. Nid oes hawl gwerthu pysgod sy'n cael eu dal â gwialen (**https://naturalresources.wales/media/3960/is-ddeddfau-pysgota-%C3%A2-gwialen.pdf**) a cheir cyfyngiadau pellach e.e. tagio ar bysgod sy'n cael eu dal mewn rhwydi trwyddedig.





**C: Ydy'r rheolau hyn yn effeithio ar bysgod cregyn sy'n cael eu casglu â llaw, fel cocos?**

A: Nac ydyn, ond mae'r mater hwn yn un sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

**C: Os ydw i'n prynu pysgod imi fy hun eu bwyta, oes angen ifi gofrestru?**

A: Nac oes. Os ydych yn prynu ychydig o bysgod (llai na 25kg) i'w bwyta'n bersonol, nid oes gofyn ichi gofrestru ond dylech fod yn ymwybodol bod pysgotwyr heb drwydded sy'n gwerthu pysgod yn torri'r gyfraith.

**C: Sut mae mynd ati i gofrestru?**

A: Gweler 'Rhagor o wybodaeth' isod. Gall eich swyddfa pysgodfeydd leol eich helpu i lenwi'r ffurflen gofrestru a nodi'r dogfennau fydd angen i chi eu darparu gyda'r ffurflen.

**C: Beth yw'r gofynion ar ôl ifi gofrestru?**

A: Mae gofyn i chi roi manylion yr holl bysgod gwerthiant cyntaf rydych yn eu prynu i'ch swyddfa pysgodfeydd lleol gan ddefnyddio'r wybodaeth y byddwch wedi'i chael yn y nodyn gwerthu. I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae gofyn i chi ei rhoi, cysylltwch â'ch swyddfa pysgodfeydd leol.



# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru'n brynwr pysgod neu i ofyn am gopi o'r ffurflen gofrestru, cysylltwch â swyddfa pysgodfeydd leol Llywodraeth Cymru:

**Aberdaugleddau**

**Ffôn: 03000 253500**

**E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru**

Ystafell 3, Cedar Court, Haven's Head Business Park, Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73 3LS

**Caergybi**

**Ffôn: 01407 765757**

**E-bost: holyheadmailbox@llyw.cymru**

Yr Hen Ficerdy, Stryd Newry, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1DB

Mae copi o'r ffurflen gofrestru ac arweiniad ar sut i'w llenwi ar gael hefyd ar: **https://llyw.cymru/prynwyr-cofrestredig-gwerthwyr-pysgod-physgod-cregyn**

I weld manylion y rheini sydd wedi'u cofrestru i brynu pysgod gwerthiant cyntaf, ac i weld gwybodaeth arall megis y gofrestr cychod cofrestredig, ewch i: **www.fishregister.gov.uk**

Mae gwefan Seafish yn cynnig gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr **www.seafish.org/media/publications/CMO_Guide_Ver_2_17-10.pdf**

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25973